# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 2

CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD

*Cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad*

### 2 Cais gan sefydliad am gymeradwyaeth CCAUC i gynllun ffioedd a mynediad

(1) Caiff corff llywodraethu sefydliad o fewn is-adran (3) wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth CCAUC i gynllun ffioedd a mynediad arfaethedig sy'n ymwneud â'r sefydliad.

(2) Mae cynllun ffioedd a mynediad yn gynllun sy'n cydymffurfio ag adrannau 4 i 6.

(3) Mae sefydliad o fewn yr is-adran hon yn sefydliad yng Nghymru—

(a) sy'n darparu addysg uwch, a

(b) sy'n elusen.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 2 addaswyd (1.9.2015) gan The Higher Education (Wales) Act 2015 (Consequential Provision) Order 2015 (O.S. 2015/1353), erglau. 1(2), **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I2** A. 2(1)-(3) mewn grym ar 1.1.2016 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 6(a)**

**I3** A. 2(4) mewn grym ar 20.5.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/1327, **ergl. 2(a)**

**I4** A. 2(4) mewn grym ar 1.1.2016 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2015/1327, **ergl. 6(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/08/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, Adran 2.